PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD MERCHER, 5 MEDI 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd McGarry(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ebrahim, Goddard, Jenkins, Kelloway, Lent a/ac Molik |

10 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Ahmed a Carter.

11 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni ddaeth dim i law.

12 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2018 a'r cyfarfod ar y cyd rhwng y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol a Phlant a Phobl Ifanc a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf 2018 yn gofnod cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

13 : DARPARIAETH GOFAL CARTREF YNG NGHAERDYDD

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr eitem hon yn eu galluogi i roi sylwadau ar y cynigion ar gyfer comisiynu Gofal Cartref a Chaffael Gwasanaethau Gofal Cartref cyn eu hystyried yn y Cabinet ar 20 Medi 2018.

Croesawodd y Cadeirydd i'r cyfarfod y Cynghorydd Susan Elsmore Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant, Claire Marchant Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Sarah McGill Cyfarwyddwr Pobl a Chymunedau.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad lle dywedodd fod hwn yn faes pwysig iawn gyda gwariant gwerth uchel iawn. Roedd yn faes allweddol wrth symud ymlaen yn enwedig o ran gweithio mewn partneriaeth yn fewnol ac yn allanol, gan ychwanegu ei fod yn ddechreuad ar gam cyffrous a phwysig ymlaen i wasanaethau wedi'u cyd-gynhyrchu gyda dinasyddion yng Nghaerdydd.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyniad i'r Aelodau ar Gomisiynu Gofal Cartref a Chaffael Gwasanaethau Gofal Cartref, ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau oddi wrth yr Aelodau.

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai cymunedau amrywiol a rhwystrau ieithyddol yn rhan o'r meini prawf wrth symud ymlaen. Dywedodd yr Aelod Cabinet ei bod yn ymwybodol o'r pryderon a'i bod yn ymwybodol o'r ffaith nad yw pob cymuned yn cael eu cyrraedd ar hyn o bryd. Roedd hyn yn gyfle i ymgysylltu o ddifrif a chyd-gynhyrchu gwasanaethau a dod yn fwy cysylltiedig â phob cymuned. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet ei bod yn ymwybodol bod y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau

Oedolion a Chymunedol yn awyddus i ganfod beth yw barn defnyddwyr gwasanaeth am y gwasanaethau a ddarperir mewn gwirionedd.

Nododd yr Aelodau fod hyn yn wahanol i'r penderfyniad a wnaed gan y Cabinet ym mis Ionawr a gofynnodd beth oedd wedi ysgogi'r newid. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod symudiad wedi bod ar lefel genedlaethol a bod "Cymru Iachach" yn darparu ffocws gyda'r gweithlu yn ei chanol. Cafwyd cyfle i bwyllo a myfyrio, hyd yn oed yr hyn a oedd yn symud ymlaen yn ei ddatblygiad ac edrych ar amrywiaeth a seilwaith. Roedd yn bwysig adeiladu ar y cryfderau presennol a symud ymlaen i'r lefel nesaf. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet fod disgwyl yr Arolwg Seneddol ym mis Ionawr, ond ers hynny bu newid gwirioneddol a oedd yn golygu bod angen gwneud pethau'n wahanol. Yr oedd yn bwysig cael pethau'n iawn a chymryd yr amser i wneud hynny, gan ddefnyddio'r cyfle hwn i osod sylfeini'n awr a fydd yn gweithio yn y dyfodol.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw ymchwil wedi'i gynnal gyda dinasoedd tebyg. Dywedodd yr Aelod Cabinet bod 13 o ddarparwyr ar y llyfrau 18 mis yn ôl, bellach mae 70 felly mae'r systemau'n iawn ac yn gweithio, ond roedd yn allweddol edrych ar fapio ardaloedd er mwyn osgoi llawer o ddarparwyr gwahanol yn gwasanaethu un ardal/stryd. Mae awdurdodau lleol eraill yn edrych ar yr un pethau a byddai'n bwysig edrych ar yr arferion gorau. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod llawer o bapurau ymchwil wedi'u hysgrifennu a bod pocedi o waith yn mynd ymlaen mewn gwahanol ardaloedd megis cynllun peilot Bro Morgannwg. Er mwyn edrych ar ddinasoedd craidd, byddai angen cymharu â chymunedau cymhleth fel Caerdydd. Mae gan Gaerdydd fantais o gael gweithlu cryf a marchnad gref.

Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch parhad gofal. Dywedodd yr Aelod Cabinet mai nod gofal yn y cartref yw cadw pobl yn annibynnol gartref am gyhyd â phosibl, ond dim ond rhan o hynny yw hyn ac mae angen ychwanegu Gwasanaethau Byw'n Annibynnol at ofal. Roedd angen amser i ddatblygu'r model yn effeithiol ac roedd yn gymhleth ond ni fyddai'r defnyddwyr gwasanaeth dan anfantais.

Gofynnodd yr Aelodau am y goblygiadau o ran costau ac a ellid ei wneud o fewn y gyllideb. Dywedodd y Cyfarwyddwr Pobl a Chymunedau nad hwn oedd yr unig adolygiad a oedd yn cael ei gynnal, bod llawer o waith yn cael ei wneud yn y Timau Adnoddau Cymunedol a darparwyr lleol a ddylai gysylltu â'r Tîm Gofal Cartref. Roedd yn bwysig peidio ag edrych ar adnoddau ar eu pen eu hunain, dod â ffrydiau ariannu at ei gilydd a sefydlu ffyrdd effeithiol o weithio. Eglurodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol bwysigrwydd ail-alluogi a rheoli'r galw yn y tymor hir o fewn adnoddau, yr angen am wasanaethau dwysach am gyfnodau byr er mwyn galluogi pobl i aros yn annibynnol ac osgoi gofal ysbyty neu nyrsio. Bydd yn cymryd amser i adeiladu'r gwasanaethau perthnasol hyn.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd y farchnad Gofal Cartref wedi aros yn ei hunfan. Dywedodd y Cyfarwyddwr Pobl a Chymunedau fod y gweithgarwch blaenorol wedi effeithio ar nifer yr oriau. Roedd yn bwysig edrych ar y farchnad mewn ffordd gynaliadwy ac edrych ar recriwtio gweithwyr gofal, sydd angen hyblygrwydd ac y mae angen ei chynnwys mewn set newydd o drefniadau.

CYTUNWYD: Bod y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

14 : ADRODDIAD BLYNYDDOL PARTNERIAETH RANBARTHOL CAERDYDD A'R FRO 2017/18

Croesawodd y Cadeirydd i'r cyfarfod y Cynghorydd Susan Elsmore Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant, Claire Marchant Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Sarah McGill Cyfarwyddwr Pobl a Chymunedau a Rachel Jones Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad lle dywedodd ei bod yn falch o gyflwyno'r ail adroddiad blynyddol, sy'n rhoi trosolwg da ac yn adlewyrchu aeddfedrwydd y berthynas â phartneriaid. Roedd yr Aelod Cabinet yn dymuno talu teyrnged i Rachel Jones a oedd wedi gwneud gwaith aruthrol gyda thîm bach o bobl; o safbwynt cenedlaethol cydnabuwyd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol hwn fel arweinydd yn y maes ar draws Cymru.

Rhoddwyd cyflwyniad i'r Aelodau yn amlinellu pwyntiau allweddol o Adroddiad Blynyddol 17/18, ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau oddi wrth yr Aelodau.

Nododd yr Aelodau'r ffigurau Oedi Wrth Drosglwyddo Gofal ac ystyriwyd y gallai'r Pwyllgor edrych yn ddyfnach ar y ffigurau a'r targedau.

Roedd yr aelodau o'r farn bod yr Adroddiad Blynyddol yn rhagorol gyda rhai canlyniadau gwych; fodd bynnag, nododd yr Aelodau y gallai 'Fy Nheulu' gael ei gynnwys gan fod llawer o bobl yn dibynnu ar gymorth teulu. Cytunodd Rachel Jones y dylid ei gwneud yn glir gan ei bod wedi'i chynnwys ar hyn o bryd yn yr agwedd Gymunedol. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet fod Cymru Iachach yn gosod her i Gymru ac yn galw Teuluoedd, Gwirfoddolwyr a Gwasanaethau Statudol yn gymuned gyda'i gilydd.

Nododd yr Aelodau fod yr adroddiad yn eclectig ac yn eang iawn ac yn meddwl tybed a oedd yna risg o ddiffyg canolbwyntio neu a oedd y problemau'n rhy gymhleth. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y cylch gwaith wedi'i bennu gan Lywodraeth Cymru a bod swyddogion wedi holi pam roedd rhai pethau'n cael eu cynnwys ac eraill ddim, ond nid oeddent yn ystyried bod diffyg ffocws. O ran cymhlethdod, cytunodd swyddogion ei fod yn gymhleth ond bod hyn yn adlewyrchu materion cymhleth y cyhoedd. Mae'n bwysig cael effaith mewn ardaloedd ac roeddent wedi canolbwyntio ar flaenoriaethu meysydd gwaith. Ceir cydlyniad o ran blaenoriaethau a bydd y ffocws ar ardaloedd yn helpu.

Dywedodd yr Aelod Cabinet fod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn canolbwyntio'n dda iawn ac yn gyfrwng llywodraethu go iawn er mwyn cyflawni gwaith, bod llawer iawn o ymddiriedaeth wedi cronni dros y 2 flynedd ddiwethaf a bod trafodaethau clir yn cael eu cynnal i fapio lle mae'r grŵp yn cydweithio â'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Pobl a Chymunedau fod hyn yn caniatáu i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gael sgyrsiau gonest am yr hyn sy'n mynd o'i le ac mae'n caniatáu dull gwahardd nad yw'n dal yn seiliedig ar ymddiriedaeth a chydberthnasau. Roedd angen set dda o drefniadau er mwyn adrodd i bob Bwrdd ac i'r Cyngor.

Gofynnodd yr Aelodau sut mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn gwneud gwahaniaeth ar lawr gwlad a beth sy'n ei wneud i gefnogi'r agenda rhagnodi cymdeithasol. Dywedodd swyddogion ei fod yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol o ran Cymorth Byw'n Annibynnol a'r Pwynt Cyswllt Cyntaf a oedd yn elwa ar y Gronfa Gofal Integredig. Mae'r agenda strategol yn cael ei chyflawni ac roedd hi nawr yn

bwysig i drilio i lawr.  Datblygir rhagnodi cymdeithasol gyda chydweithwyr yn y trydydd sector a gwasanaethau ehangach yr awdurdod lleol.  Mae cynlluniau peilot da yng Nghaerdydd a'r Fro ac mae angen canolbwyntio ar sut y mae'r rhain wedi'u gwreiddio ac yn hanfodol wrth symud ymlaen; mae Cymru Iachach yn cynnig cyfle gwych i hyn.  Roedd yn ddyddiau cynnar o ran graddfa ond mae'r berthynas rhwng Meddygon Teulu ac Awdurdodau Lleol yn allweddol.

Gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth am 'Gadewch i ni Siarad' a dywedwyd wrthym ei fod yn frand a ddefnyddir yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth.

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai ymgysylltu â'r gymuned y ddwy ffordd, a dywedwyd wrthynt y bod hynny'n cael ei gynnwys.

Gofynnodd yr Aelodau pa feysydd gwasanaeth oedd yn rai Dementia Cyfeillgar a dywedwyd wrthynt fod staff llyfrgelloedd a hybiau wedi cael hyfforddiant a bod llawer mwy ar y gweill i gael hyfforddiant ac roedd cynlluniau hefyd i gael yr hyfforddiant yn y Bwrdd Iechyd.

Gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth am y Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd mewnol a materion yn ymwneud â chapasiti ac absenoldebau staff.  Dywedodd y swyddogion fod rhai materion yn ymwneud â salwch staff wedi'u datrys erbyn hyn a bod y staff wedi'u canmol yn llwyr unwaith eto.  Dywedodd swyddogion y byddent yn cael mwy o wybodaeth am hyn ac yn ei ddarparu i'r Cadeirydd.

CYTUNWYD:  Bod y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 15 : PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL AC OEDOLION - RHAGLEN WAITH 2018-19

Rhoddwyd gwybodaeth i'r Aelodau am allbwn y fforwm rhaglennu gwaith ym mis Awst.  Roedd yr atodiad i'r adroddiad yn nodi pryd y byddai materion yn cael eu hystyried drwy gydol y flwyddyn.  Roedd yr Aelodau wedi bod yn awyddus i gadw'r cyfarfodydd hyd at 3 awr yr un, fel rheol, gyda dwy eitem sylweddol a briff.  Byddai'r Panel Perfformiad yn parhau i edrych ar berfformiad bob chwarter a byddai hefyd yn edrych ar gyllidebau.  Roedd yr Aelodau wedi bod yn awyddus i gael briffiau mwy manwl mewn adroddiadau blaenorol a oedd wedi ystyried materion.  Roedd yr Aelodau hefyd am gael mwy o randdeiliaid allanol yn y Pwyllgor ac roeddent yn awyddus i gynnal ymweliadau â'r gymuned.

Rhoddwyd gwybodaeth i'r Aelodau am Ymchwiliad Gorchwyl a Gorffen posibl yn ymwneud â Digartrefedd a Llety â Chymorth Annibynnol, a chawsant wybod bod materion megis Credyd Cynhwysol a Thai Gwag ac Atgyweiriadau Tai ar fin digwydd.

Cynghorodd y Swyddog Craffu y byddai Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal adolygiadau yn ystod y flwyddyn i ddod, gan gynnwys y Gronfa Gofal Canolraddol a'r Pwynt Cyswllt Cyntaf, ac y byddai'r rhain ar agenda'r Pwyllgor pan fyddent ar gael.

Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai Blaengynllun Gwaith y Cabinet yn cael ei roi yn yr amserlen unwaith y byddai ar gael.

Gofynnodd y Swyddog Craffu am enwebiadau ar gyfer y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, cytundeb ar faterion i'w hadrodd arnynt ac amserlen ddrafft. Gofynnwyd i'r Aelodau anfon e-bost at y Swyddog Craffu.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

16 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni ddaeth dim i law.

17 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

10 Hydref 2018 am 4.30pm

Daeth y cyfarfod i ben am 6.35 pm